**CYFLWYNWYD YM MWRDD LLYWODRAETHWYR MET CAERDYDD MEDI 2020**

**Prifysgol Metropolitan Caerdydd**

**Datganiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil: 2019/20**

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi'r lefelau uchaf o uniondeb ymchwil a llywodraethu yn ei holl weithgarwch ymchwil. Fel derbynnydd cyllid cyhoeddus, mae Met Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ei staff a'i myfyrwyr yn cynnal safonau rhagorol o arfer academaidd, uniondeb a gonestrwydd ym mhob agwedd ar ymchwil.

1.2 Fel llofnodwr i'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil, mae Met Caerdydd wedi ymrwymo i gefnogi a chynnal yr ymrwymiadau sydd ynddo. Er mwyn gwella atebolrwydd a rhoi sicrwydd bod mesurau'n cael eu cymryd i gefnogi safonau uchel o uniondeb ymchwil, mae'r Concordat yn argymell bod cyflogwyr ymchwilwyr yn cyflwyno datganiad blynyddol byr i'w corff llywodraethu eu hunain sydd yn:

- Darparu crynodeb o gamau gweithredu a gweithgareddau a gyflawnwyd i gefnogi a chryfhau dealltwriaeth a chymhwysiad o faterion uniondeb ymchwil.
- Rhoi sicrwydd bod y prosesau sydd ganddynt ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, cadarn, teg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad.
- Darparu datganiad lefel uchel ar unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn yn ymwneud ag ymchwil a gynhaliwyd.

1.3 Dyma drydydd datganiad blynyddol y Brifysgol ar Uniondeb Ymchwil ac mae'n ymwneud â blwyddyn academaidd 2019/20. Mae gwybodaeth fanwl am ddull trosfwaol y Brifysgol o ymdrin ag uniondeb ymchwil a chamymddwyn yn ymwneud ag ymchwil wedi'i chynnwys yn Natganiad Blynyddol cyntaf y Brifysgol a gyhoeddwyd yn 2018 ac ar gael ar wefan Met Caerdydd[1].

1.4 Fel yr argymhellir gan y Concordat, bydd y datganiad hwn ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Brifysgol.

## 2. Crynodeb o gamau gweithredu a gweithgareddau a gyflawnwyd i gefnogi a chryfhau dealltwriaeth a chymhwysiad o faterion uniondeb ymchwil

2.1 Mae uniondeb ymchwil wedi parhau'n ffocws allweddol i'r Brifysgol yn y flwyddyn academaidd 2019/20. Y gweithgareddau penodol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yw:

- Yn dilyn adolygiad mawr o arferion storio data yn ymwneud â phrosiectau ymchwil dan arweiniad myfyrwyr a gynhaliwyd yn 2018/19 yn cynnwys cyfranogwyr, diwygiwyd y ffurflen gais moeseg, canllawiau cysylltiedig a dogfennaeth arall gan gynnwys y Ffurflen Cydsyniad Cyfranogwr.
- Anogwyd ysgolion i ystyried a fyddai eu Pwyllgor Moeseg yn elwa o fynediad at Hyrwyddwr Moeseg, h.y. unigolyn sy'n annibynnol ar y Pwyllgor ond a allai roi

[1] http://www.cardiffmet.ac.uk/research/Documents/Research%20Integrity/Annual_statement_on_research_integrity_June18.pdf

cyngor ar faterion yn ymwneud â moeseg pan fo angen. Mae pob Ysgol bellach naill ai wedi nodi Hyrwyddwr Moeseg neu wedi adolygu ei harfer i ganiatáu trafodaeth ehangach ar ymholiadau moeseg lle bo angen.

- Adolygwyd arferion y Brifysgol mewn perthynas ag ad-dalu cyfranogwyr mewn prosiectau ymchwil. O ganlyniad, adolygwyd ac eglurwyd yr arweiniad i staff a myfyrwyr.
- Mae cydweithrediad agosach rhwng aelodau Pwyllgor Moeseg y Brifysgol a chydweithwyr sy'n gweithio i wreiddio rhaglen EDGE (Moesegol, Digidol, Byd-eang, Entrepreneuraidd) wedi'i sefydlu a disgwylir iddo barhau i'r flwyddyn academaidd nesaf.

**3. Prosesau yn eu lle ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn**

3.1 Adolygwyd Polisi’r Brifysgol ar Gamymddwyn yn ymwneud ag Ymchwil yn 2018/19 a chanfuwyd ei fod yn addas i’r diben. Bwriedir adolygu’r Polisi nesaf ym mlwyddyn academaidd 2020/21.

**4. Datganiad ar unrhyw ymchwiliad ffurfiol i gamymddwyn yn ymwneud ag ymchwil a gynhaliwyd**

4.1 Ni dderbyniwyd unrhyw honiadau o dan Weithdrefn Camymddwyn yn ymwneud ag Ymchwil y Brifysgol yn ystod 2019/20.